Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

**Cylchlythyr yr Ofalaeth**

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 28 Haf 2014



*'Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd,*
*clodforwch ef yr holl bobloedd.'*

*(Salm 117:1)*

*Annwyl ffrindiau,*

Ydych chi'n credu mewn rhagarfaethiad? Dyna i chi gwestiwn a fyddai'n siŵr o wneud i chi dagu ar eich *cornflakes* unrhyw fore. Mewn diwinyddiaeth, athrawiaeth ydyw sy'n pwysleisio fod pob digwyddiad wedi'i ewyllysio gan Dduw. Os caf ddyfynnu'r Apostol Paul, 'rhoddwyd i ni ran yn yr etifeddiaeth, yn rhinwedd ein rhagordeinio yn ôl arfaeth yr hwn sy'n gweithredu pob peth yn ôl ei fwriad a'i ewyllys ei hun.' (Effesiaid 1:11). Diau y byddwch yn falch o wybod nad fy mwriad yw ymhelaethu ar yr athrawiaeth hon ar hyn o dro, yn arbennig felly gan yr ystyriai John Calvin i ragarfaethiad olygu fod Duw ers cyn amser wedi rhagordeinio y câi rhai pobl eu hachub ac eraill eu condemnio i ddamnedigaeth. Ond gallwch ddeall fy mhryderon rai wythnosau yn ôl pan ddaeth Prifathro'r Coleg Diwinyddol yn Shillong i'm gweld rhyw fore yn yr ystafell lle roeddwn yn aros gan ofyn i mi a oeddwn yn credu mewn rhagarfaethiad. Cyn i mi gael amser i gnoi cil ar y mater aeth y Prifathro yn ei flaen i egluro'i hun: roedd y gŵr a oedd i draddodi'r anerchiad yn y *valedictory service* yn y coleg y diwrnod canlynol wedi'i daro'n wael ac yn methu dod – ac a fyddwn i yn barod i gamu i'r adwy? Sôn am fedydd tân ar fryniau Casia!



Do, bu'r profiadau niferus ac amrywiol a gefais yng ngogledd-ddwyrain yr India ym mis Ebrill yn rhai gwerthfawr iawn. Fel y gwyddoch, roeddwn wedi mynd yno ar gyfnod sabothol i weithio law yn llaw â rhai o'r gweinidogion a'r arweinwyr eglwysig yn Shillong ac i geisio deall y rhesymau dros fywiogrwydd ac atyniad yr eglwysi yn y wlad. Ni chefais fy siomi. Profiad amheuthun oedd mynychu'r oedfaon ar y Sul, gyda channoedd o bobl o bob oed yn bresennol a phawb yn gwrando'n eiddgar ar bob gair a ddeuai o enau'r gennad. Ysbryd hapus a disgwylgar a nodweddai'r addoliad. Doedd gwrando ar bregeth awr a chwarter o hyd ddim yn boen, fel y byddai i ni yng Nghymru!



Yr hyn a argraffodd ei hun arnaf fwyaf, fodd bynnag, oedd yr awydd a'r brwdfrydedd a ddangosid gan bawb mewn perthynas â'r Efengyl. Roedd dylanwad yr Ysbryd Glân i'w weld yn amlwg yn y gwasanaethau, gyda'r aelodau'n llwyr ymroddedig i fywyd a thystiolaeth yr Eglwys. Cynhelid cyfarfodydd yn feunosol ar gyfer plant ac oedolion a gwelid corau a phartïon canu yn ymarfer eu doniau yn rheolaidd.

Ychydig wythnosau yn ôl roeddem yn dathlu'r Pentecost ac yn dwyn i gof effeithiau'r nefol wynt a'r tafodau tân ar y credinwyr cynnar yn Jerwsalem.

Yn sgil dyfodiad yr Ysbryd Glân fe gafodd yr apostolion eu hatgyfnerthu i dystiolaethu'n hy ac i fentro popeth yn enw'u Harglwydd. Gwelais fwy nag arlliw o hynny yn yr eglwysi ar fryniau Casia wrth i'r aelodau ymroi i genhadu'r efengyl, nid yn unig ymhlith ei gilydd ond hefyd ymhlith pobl o grefyddau eraill oddi fewn ac oddi allan i'w gwlad. Yn anffodus, pur wahanol yw hi yng Nghymru. Nid Eglwys ar gynnydd a welir yma, ond Eglwys ar drai, heb fawr o fywyd a brwdfrydedd yn ein plith. Er hynny daliwn ati i weddïo am ddeffroad. O na ddeuai'r Ysbryd Glân unwaith eto i gynnau'r fflam o'n mewn, a'n toddi â'i wres nerthol.

> Y tân a roddaist ar ein hallor gynt
>     sy'n marw yn nharth y nos annedwydd hir;
> O tyred unwaith eto, nefol wynt,
>     a chwyth y fflam yn eirias ac yn glir.
> Gwêl Gymru ac aberth arall ger dy fron,
>         gobaith a chalon lân,
>         a ffydd a newydd gân;
> Arglwydd, gwêl Gymru, ac na wrthod hon.

*W J Gruffydd*

Haf dymunol i chi i gyd.

Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris* (Bugail)

---

Nos Fawrth, 13 Mai, yng Nghapel y Crwys, Caerdydd, cyflwynodd ein Gweinidog ei araith ymadawol fel Llywydd Sasiwn y De. Roedd yn anerchiad grymus a heriol, ac yn gofyn cwestiynau y mae'n bwysig i bob aelod eglwysig eu hystyried: 'Ydy pethau wedi mynd yn rhy bell arnom yng Nghymru, gyda'r canlyniad y bydd yn rhaid i Dduw ein hail-lunio fel y clai yn ei ddwylo? A fydd yn rhaid i'r cyfan o'n capeli ddiflannu ... cyn y gall Duw godi dim newydd yn ei le? A fydd yn rhaid iddo ddiddymu a dinistrio'r cyfan a'n harwain i gaethglud er mwyn creu rhywbeth amgenach?

Mae'r anerchiad ar gael yn llawn ar wefan y Garn; ewch i:
capelygarn.org/uploads/araith_ymadawol_y_llywydd.pdf




Y Parchedigion Elwyn Pryse a Wyn Morris yn Sasiwn y De,
Capel y Crwys, Caerdydd


Yn ystod y Sasiwn, llongyfarchwyd y Parch Elwyn Pryse ar achlysur 60 mlynedd ei ordeinio i’r weinidogaeth. Cynhaliwyd y cyfarfod ordeinio ger Castell-nedd ym mis Hydref 1954. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Rhosllannerchrugog, cyn symud i Lanrhaeadr-ym-Mochnant, ac yna i Lanymddyfri. Daeth yn ôl i Geredigion i ofalaeth y Borth ac yn ddiweddararch daeth capeli’r Garn, Madog a Chwmerfyn hefyd dan ei ofal. Mae galw mawr o hyd am ei wasanaeth fel pregethwr, a hyderwn y caiff flynyddoedd lawer eto i barhau i gyhoeddi newyddion da’r Efengyl.

# Tudalen y Plant

Pob hwyl i bawb sy'n mynd i ysgol newydd ym mis Medi.

Dysgodd Iesu'r bobl yn yr awyr agored. Dywedodd bod Duw'n gwneud i'r blodau edrych yn harddach na hyd yn oed y brenin mwyaf cyfoethog.

**Chwilia am 10 gwahaniaeth rhwng y ddau lun.**
**Darllen y stori hon yn Mathew 6:25-34.**




Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn **20 Gorffennaf.**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i**
**Swyn Dafydd,**
**Ysgol Sul Capel Seion,**
**enillydd tasg,**
**y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 6 Gorffennaf | Oedfa Ddathlu am 6 pm, Capel y Morfa, Aberystwyth<br>Ymunwch â Chôr Ieuenctid Synod Mizoram ar gyfer oedfa arbennig i ddiolch i Dduw am arloeswyr fel Howell Harris a Thomas Charles |
| 7–9 Gorffennaf | Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru<br>Y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth |
| 8–11 Gorffennaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf: Prosiect Cofio a Myfyrio<br>Dyddiau cywain – manylion yn y rhifyn hwn |
| 8 Gorffennaf | 'Cân yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr': rhai cysylltiadau cenhadol rhwng Cymru a Tsieina – darlith gan y Parch. Richard Brunt<br>Canolfan y Celfyddydau am 11.45 am |
| 9 Gorffennaf | 'Dyn fel mewn twym ias': Howell Harris a datblygiad Methodistiaeth – darlith gan Dr Eryn M White<br>Canolfan y Celfyddydau am 11.45 am |
| 13 Gorffennaf | Oedfa Haf yr Ofalaeth yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch – gwasanaeth teuluol pryd y bydd y Gweinidog yn sôn am ei daith i India<br>Bydd casgliad tuag at noddi taith Zoe i weithio'n wirfoddol yn Uganda |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## *CIC Capel Seion*

Rydw i wedi bod wrth fy modd yn rhedeg Clwb Capel Seion ac mi rydw i'n mwynhau datblygu a dod i adnabod plant ac ieuenctid sydd wedi bod yn mynychu'r clwb.

Mae'r clwb wedi bod yn brysur iawn, ac ers y Pasg rydym wedi cynnal llawer o weithgareddau – yn cynnwys gemau gwirion, noson gwis, gemau *pool* a phêl-droed, a llawer mwy. Uchafbwynt y clwb fydd dathlu diwedd y tymor gyda trip ar gyfer yr aelodau hŷn i Glwb Golff Capel Bangor i saethu peli paent. Rydyn ni'n gobeithio cynnal barbeciw a gemau i'r holl aelodau'r clwb ar 24 Gorffennaf.

Os hoffech chi gael mwy o wybdaeth am y clwb cysylltwch â: zoejones34@gmail.com neu 01970611510.



## *CIC – y Garn*




Mae tymor arall yn prysur wedi hedfan heibio, a rhaglen CIC wedi bod yn llawn unwaith eto. Hyd yn hyn rydym wedi mwynhau gemau yng nghwmni ein gilydd yn Festri'r Garn a thaith gerdded noddedig o gwmpas Penrhyn-coch er mwyn codi arian ar gyfer taith Zoe i Uganda. Diolch i'r drefn, mi roedd hi'n noson braf!

Dechreuodd y daith yn Neuadd Penrhyn-coch, wedyn lan i Salem a Choedgruffydd a 'nol lawr tuag at y neuadd. Yn ystod y daith cafodd pawb y cyfle i weld y llechen sy'n dangos lle cafodd Dafydd ap Gwilym ei eni. Roedd y daith tua 3 milltir a hanner a chafodd pawb lawer o hwyl yn dringo dros waliau a neidio dros afonydd.

Ar ôl cerdded aethom yn ôl i festri Capel Horeb, lle roedd cŵn poeth a chacennau yn barod i ni. Diolch i bawb a gymerodd ran, a diolch yn fawr i Rees Thomas a drefnodd y daith.

Dim ond tair sesiwn sydd gennym ar ôl o'r tymor bellach. Rydym yn edrych ymlaen at gael noson Celf a Chrefft yn y festri ar y 19 Mehefin. Yna, ar 3 Gorffennaf, rydym yn cael trip i'r Llain.

I gloi'r tymor, fe fydd barbeciw'n cael ei drefnu ar y 17 Gorffennaf, a byddwn yn gwahodd plant sydd ym Mlwyddyn 5 eleni i ymuno â ni. Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau yma, yna cysylltwch â mi ar 01970 611510 neu zoejones34@gmail.com.

*Zoe Jones*
*(Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid)*



Taith gerdded CIC—nos Iau, 5 Mehefin





## Y RHYFEL BYD CYNTAF YN ARDAL GOGLEDD CEREDIGION

## PROSIECT COFIO a MYFYRIO

## (o dan nawdd capeli'r fro)

**Y bwriad**: Creu arddangosfa (ar gyfer mis Hydref) o bethau sy'n perthyn i deuluoedd a chymdogaethau lleol.

**Yr angen**: Llythyron, lluniau, cardiau post, medalau, dillad neu – yn wir – unrhyw beth yn eich meddiant sydd â pherthynas leol â'r Rhyfel Byd Cyntaf

**Beth i wneud**: Dewch â beth bynnag sydd gennych i unrhyw un o'r canolfannau isod ar y dyddiad a'r amser priodol.

**Beth fydd yn digwydd**: Byddwn yn sganio neu yn gwneud copi yn y fan a'r lle. Bydd modd i chi wedyn fynd â'r llun neu'r llythyr gwreiddiol nôl gartre yn ddiogel gyda chi.

### DIWRNODAU CYWAIN

8 Gorffennaf: Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch (5–7 o'r gloch)

9 Gorffennaf: Neuadd Rhydypennau (2–4 o'r gloch)

10 Gorffennaf: Neuadd Pen-llwyn (2–4 o'r gloch)

10 Gorffennaf: Neuadd y Paith, Capel Seion (5–7 o'r gloch)

11 Gorffennaf: Neuadd Goffa Tal-y-bont (2–4 o'r gloch)

BYDD PANED A CHROESO MAWR YM MHOB CANOLFAN

Manylion pellach gan John Leeding 01970 832672

## *Sul Cymorth Cristnogol*



Rhai o'r aelodau'n cymdeithasu yn y Cinio Bara a Chaws yn dilyn y gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Gweinidog fore Sul, 18 Mai.



## Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan Morgan / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**6** Dr Rhidian Griffiths am 10 o'r gloch
Bydd Miss Beti Griffiths, Llanilar, yn ymweld
â'r ysgol Sul

Oedfa Ddathlu gyda Chôr Ieuenctid Synod Mizoram
Capel y Morfa, Aberystwyth, am 6 o'r gloch

9 Y Rhyfel Byd Cyntaf: Prosiect Cofio a Myfyrio
Cyfle i ddod â'ch lluniau, llythyrau, medalau &c
i Neuadd Rhydypennau, 2–4 o'r gloch

**13** Oedfa Haf yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at daith Zoe Jones i Uganda

**20** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre, pryd y
cyflwynir rhodd ar ran yr Eglwys i Mrs Elina Davies,
ar achlysur ei hymddeoliad fel gofalwraig Bethlehem

**27** Parch Eric Greene

Llongyfarchiadau calonnog i’r canlynol:

Siwan ac Endaf ar enedigaeth eu mab, Huw Lloyd, ar 8 Ebrill, brawd bach i Megan

Elen a Steffan ar enedigaeth eu mab, Math Lewys, ar 5 Mehefin, brawd bach i Lois ac ŵyr i Rhian Huws

y Parch Elwyn Pryse ar ddathlu trigain mlynedd ers ei ordeinio’n weinidog yr Efengyl

Vernon Jones ar ei lwyddiant yn ennill amryw o wobrau yn Eisteddfod Pantyfedwen, gan gynnwys y wobr gyntaf am emyn a thelyneg

Llinos Dafis ar ennill Gwobr Patagonia am yr erthygl orau yng nghylchgrawn *Y Wawr* yn ystod 2013/14

Meinir Williams ar ennill un o brif ysgoloriaethau’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio ym Mhrifysgol Bangor

Rhian Jones ar gael ei hethol yn flaenor yng Nghapel y Groes, Wrecsam.

# Awst

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Eddie T Jenkins*

**3** Oedfa'r bore yn unig
Capel Noddfa am 10 o'r gloch

**10** Parch Lewis Wyn Daniel
Oedfa'r bore yn unig yn y Garn am 10 o'r gloch

**17** Oedfa'r bore yn unig
Capel Noddfa am 10 o'r gloch

**24** Mr Lyndon Lloyd
Oedfa'r bore yn unig yn y Garn am 10 o'r gloch

**31** Oedfa'r bore yn unig
Capel Noddfa am 10 o'r gloch

## Ymddeoliad Mrs Elina Davies

Diwedd Mehefin, bydd Mrs Elina Davies yn ymddeol o'i gwaith fel gofalwraig Ysgoldy Bethlehem, Llandre. Bu'n cyflawni'r gwaith ers deng mlynedd ar hugain – ar y cyd â'i diweddar ŵr, Alun, am y rhan fwyaf o'r amser. Cyn hynny, bu tad a mam Alun, sef Harri ac Alice Ann Davies, yn gwneud y gwaith, yn ogystal a'i dad-cu a'i fam-gu, sef Arthur ac Ann Jones cyn hynny. Felly, mae ein dyled i'r teulu am eu gofal dros yr ysgoldy yn anfesuradwy.

Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Elina am ei gwaith a'i hymroddiad ar hyd y blynyddoedd a hyderwn y caiff gyfle i fwynhau ei 'hymddeoliad' haeddiannol. Bydd rhodd yn cael ei chyflwyno iddi ar ran yr Eglwys yn y gwasanaeth nos Sul, 20 Gorffennaf, a gynhelir ym Methlehem.

Rydyn ni hefyd yn croesawu Ms Annette Williamson, a fydd yn ymgymryd â'r gwaith o ddechrau Gorffennaf ymlaen, ac yn dymuno pob rhwyddineb iddi yn y gwaith.

## Medi

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Dewi G Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

| | |
|---|---|
| **7** | Parch Adrian Williams<br>Yr ysgol Sul yn ailddechrau |
| 11 | Pwyllgor Blynyddol CIC<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 12 | Pwyllgor Swyddogion y Garn<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| **14** | Mr Huw Roderick<br>Bugail |
| **21** | Bugail<br>Cymun yn oedfa'r bore |
| 23 | Pwyllgor Eglwys<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| **28** | Parch Ddr John Tudno Williams |

*Pan welaf wên ar wedd blodeuyn hardd,*
*pan welaf wyrth aeddfedrwydd ffrwythau'r ardd,*
*pan glywaf su aur donnau'r meysydd ŷd*
*mi ganaf innau fawl i Grëwr byd.*

*Glyndwr Richards*

**TRYDAR**

A wyddech chi fod adar yn trydar
yng Nghapel y Garn?

Diolch i ddygnwch a brwdfrydedd Marian Beech Hughes, mae 'na 99 o ddilynwyr (ar hyn o bryd) ar gyfrif Trydar (Twitter) @capelygarn.

I'r rhai hynny ohonoch sydd falle yn ofnus o'r dechnoleg neu sydd heb eto gofleidio'r cyfrwng , mae Twitter yn un o'r cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, gan bobol o bob oed. Nonsens yw meddwl mai rhywbeth i'r to iau yn unig yw'r cyfryngau newydd. Rwy'n rhyfeddu cynifer o bobl 60+ sy'n gwneud defnydd helaeth ohono i gyfathrebu ac i gadw mewn cysylltiad, a hynny am ddim.

Ers mis, rwyf fi yn un o'r rheiny. Er yn ddigon swil ar y dechrau, buan iawn y tyfodd yr hyder ac rwyf wedi rhyfeddu at botensial anhygoel y cyfrwng. Llond llaw o ddilynwyr oedd gen i ond oherwydd natur feiral y cyfrwng, yn ystod y mis mae nifer o fy negeseuon wedi cyrraedd miloedd lawer o bobol.

Sdim modd amlhau geiriau pan ydych yn defnyddio Trydar. Rhaid bod yn gryno a chynnil a does dim modd cynnwys mwy na brawddeg neu ddwy ar y mwyaf. Arddull addas felly i gyfathrebu yn effeithiol yn yr oes hon. Mae'n gyfrwng sy'n benthyg ei hun i'n ffordd ni o fyw heddiw ac fe all roi cyfleoedd cyfathrebu newydd i'n sefydliadau crefyddol. Mae prysurdeb bywyd heddiw yn ei gwneud hi'n fwyfwy anodd, os nad bron yn amhosibl, i gael pobol i ymgynnull ynghyd mewn un man ar yr un amser.

O ddod ag arloeswyr cynnar y Cyfundeb i'r oes gyfoes, byddai pobol o anian Daniel Rowland, Hywel Harris a Williams Pantycelyn heddiw, mi gredaf, yn gwneud defnydd helaeth o Twitter. Onid eu nod hwy oedd cenhadu a chyrraedd cynifer o bobol ag oedd yn bosibl?

Mae pawb a phopeth yn perthyn i gyfnod ac mae mwy nag un ffordd o gael Wil i'w wely.

*Wynne Melville Jones*

**Rhai o gyfansoddiadau buddugol eisteddfod fach**
**Cymdeithas Lenyddol y Garn**

## Dau bennill – ‘Cadair’

Hen gadair siglo fregus
Yw hon i bawb a’i gwêl,
Rhywbeth i’w thaflu allan
Neu werthu yn y sêl.

Ond i mi – mae atgofion
Fel mantell drosti hi:
Fe’i cadwaf, doed a ddelo,
Mae’n rhan ohonof fi.

*Dilys Baker-Jones*

## Darn o ryddiaith union 100 gair o hyd – ‘Y Storm’

Amheuai Inspector Jap anfadwaith mawr. Gorweddai’r corff yn ei ystafell wely gydag archoll fawr ar ochr ei ben. Suddasai’r gwaed i’r carped a than y wardrob. Gwisgai grys a sanau ond gorweddai ei drowsus yn llipa wrth ei draed a’i ddwy goes wen yn noeth. Ychydig wyddai Jap fod y creadur anffodus wedi cael storm feddwl y bore hwnnw. Beth, feddyliodd, ar ôl hanner can mlynedd o wisgo ei drowsus trwy roi ei droed dde i mewn gyntaf a sefyll ar ei droed chwith, ddigwyddai pe ceisiwn sefyll ar fy nhroed dde a rhoi fy nhroed chwith i mewn gyntaf?

*Eddie Jenkins*

## Gorffen limrig

Rhyw ddiwrnod yn llys Cantre’r Gwaelod
Fe gafwyd trafodaeth reit hynod ...
Medd ceidwad y porth,
‘’Rôl gwynt mawr o’r North
Mae hanner y Borth yma’n barod!’

*Vernon Jones*

## *Dwy eglwys*


Ddiwedd Ebrill yr oedd fy ngwraig a minnau ar wyliau yn yr Almaen. Fe welsom ysblander sgleiniog y Reichstag newydd a gweddillion concrid salw mur Berlin. Ond mwy cofiadwy rywfodd oedd dwy eglwys, y naill yn Berlin a'r llall yn Dresden, dwy eglwys a chwalwyd yn yr Ail Ryfel Byd, un yn ddi-sôn-amdani a'r llall yn enwog.

Ar ddamwain y bu inni ganfod y gyntaf. Wedi swpera yng nghanol Berlin dyma benderfynu cerdded yn ôl i'n gwesty a gofyn y ffordd i ddau o'n cyd-deithwyr wrth fwrdd cyfagos a oedd, yn wahanol i ni, wedi cerdded yno o'r gwesty. 'Cerddwch i gyfeiriad tŵr yr eglwys sy wedi ei gwneud o frics coch,' meddent. A dyna a wnaethom.


A hithau'n nosi yr oedd yr eglwys frics coch – y St Matthäus-Kirche – bellach ynghlo, ond gallem weld ar ei thalcen blac efydd yn darlunio wyneb dyn. Nesáu o chwilfrydedd, ac aros yn stond o ddarllen yr enw: Dietrich Bonhoeffer, un o ddiwinyddion mawr yr ugeinfed ganrif a gŵr a ferthyrwyd yn un o garchardai Hitler yn 1945. Nodai'r plac mai yn yr eglwys honno y cafodd ei ordeinio yn 1931. Rhaid oedd pererindota yno eto drannoeth.

Ar ôl ei dinistrio'n llwyr yn ystod y rhyfel fe ailgodwyd y St Matthäus-Kirche fesul bricsen yn union fel y bu. Hynny yw, o'r tu allan. Ond y tu mewn fe benderfynwyd llunio eglwys gwbl newydd. Yn ei moelni lluniaidd a chynnil – gyda'i cholofnau concrid noeth yn cynnal y to – yr oedd yr eglwys ddigymrodedd fodern hon yn porthi'r llygad a'r enaid a'r gragen ddiymhongar o frics yn amgáu hafan o wir ysbrydolrwydd. Diddorol oedd canfod hefyd fod i'r eglwys gysylltiad â diwinydd enwog arall; yno yr ordeiniwyd Paul Tillich yntau. Cyd-ddigwyddiad efallai, ond o gofio am y cysylltiadau â Tillich a Bonhoeffer – diwinyddion blaengar a radical yn eu dydd – yr oedd modernrwydd yr eglwys newydd yn gweddu rywsut. Dameg? Ie, efallai.

Ymhen dyddiau yr oeddem yn ninas Dresden. A'r rhyfel bron ar ben, ar 13 Chwefror 1945 fe chwalwyd hen brifddinas hardd Sacsoni gan gyrch awyr didostur gan awyrlu Prydain. Gollyngwyd tunelli o fomiau ar ganol y ddinas, llawer ohonynt yn fomiau ffosfforws a napalm.




Plac coffa Dietrich Bonhoeffer yn eglwys Sant Mathew, Berlin



Y Frauenkirche yn Dresden

Trosedd rhyfel medd rhai: nid oedd Dresden o bwys milwrol na diwydiannol, ond yr oedd Churchill am wneud sioe ohoni! Yn uffern y danchwa fe drengodd o leiaf 25,000 ac efallai gymaint â 60,000: yr oedd ffoaduriaid heb eu cyfrif yn llochesu yn y ddinas. Anweddwyd rhai cyrff yn ddim a llosgi lluoedd yn lludw.

Dinistriwyd hefyd 25,000 o adeiladau, yn eu plith prif eglwys Lutheraidd Dresden, y Frauenkirche (Eglwys y Forwyn), eglwys nodedig o hardd o'r ddeunawfed ganrif. Fel rhannau eraill o ganol y ddinas, tomen hyll o rwbel fu'r Frauenkirche am ddegawdau wedyn, a'r awdurdodau Comiwnyddol yn ddihitio. Ond yr oedd dyhead dwfn i ailgodi'r eglwys ymhlith Cristnogion Dresden ac wedi'r newid gwleidyddol yn 1989 bu tro ar fyd. Fe godwyd arian yn rhyngwladol, ac yn 1993 fe ddechreuwyd clirio a didoli'r rwbel; yn 1994 fe ddechreuwyd ailadeiladu'n ofalus, gwaith a barhaodd hyd 2005 pan ailgysegrwyd yr eglwys. Mae dolen o gyfeillgarwch rhyngddi ac eglwys gadeiriol Coventry a chwalwyd hefyd yn y rhyfel.

Fel yn achos yr eglwys yn Berlin, fe geisiwyd ail-lunio'r Frauenkirche fel y bu gynt. Fe achubwyd cymaint â phosib o'r hen feini o'r rwbel: yn eu düwch – canlyniad traul dwy ganrif a thân 1945 – maent yn cyferbynnu'n amlwg â'r meini newydd goleuach yn jig-so'r muriau. Yn wahanol i'r eglwys yn Berlin fe geisiwyd ail-greu y tu mewn i'r eglwys hefyd, a hynny'n fuddugoliaethus lwyddiannus. Eglwys yn y dull baróc oedd ac ydyw'r Frauenkirche, dull a all fod yn llethol o oraddurniedig. Ond nid felly'r eglwys hon: mae'r goreuro'n ymatalgar, a gwyn a lliwiau pastel lleddf sydd amlycaf ar y pum haen o orielau sy'n cylchu'n uchel o'i chwmpas. Ond gogoniant yr eglwys yw'r gromen gwpanog sy'n esgyn i'r entrychion fel cynt, yn union fel y cynlluniwyd hi gan y pensaer George Bähr yn y ddeunawfed ganrif.

Atyniad twristaidd? Ydyw, wrth gwrs. Ond, yn bwysicach, mae'r Frauenkirche yn symbol o wytnwch y ffydd Gristnogol yn wyneb adfyd, o fuddugoliaeth cymod a chariad dros bwerau'r fall, o ddechreuadau newydd a gynigir i ni gan Dduw er gwaethaf pob ffaeledd a ffolineb dynol.

Dwy eglwys a ailgodwyd o'r llwch ac a fydd yn aros yn hir yn y cof. Ond cau a chwalu addoldai a wnawn ni yng Nghymru!

*Gruffydd Aled Williams*

## *Newyddion Pen-llwyn*

Roedd dydd Sul, 4 Mai, yn Sul arbennig iawn yng Nghapel Pen-llwyn. Yn gyntaf, braint oedd cael croesawu ein Gweinidog yn ôl yn ddiogel o'i daith i ogledd-ddwyrain India, lle bu'n gweinidogaethu yn Shillong a Mizoram am bron bum wythnos. Cafodd y profiad yn ystod ei daith o weld capeli'n llawn i'r ymylon o bobl yn addoli ar y Sul ac ar fore Sul y Pasg cynhaliwyd yr oedfa am 5.30 o'r gloch y bore. Faint ohonom ni fyddai'n gwneud y fath ymdrech, ys gwn i? A ninnau yn arfer anfon cenhadon o Gymru i dystiolaethu yn y gwledydd hyn, yn awr, mawr yw eu consýrn hwy, draw yno, amdanom ni a'r Achos yma yng Nghymru, ac rydym yn eu gweddïau yn feunyddiol: 'O na ddoi'r nefol wynt i chwythu eto, / fel bu'n y dyddiau gynt drwy'n gwlad yn rhuthro.'

Gan fod hwn yn Sul y Teulu, cymerwyd at y rhannau arweiniol gan blant yr ysgol Sul cyn iddynt fynd i'r festri i ymgymryd â gweithgareddau'n ymwneud â'r thema, sef 'Tawelu'r Storm ar y Môr'. Anerchwyd hwy gan y Gweinidog drwy ddangos sleidiau PowerPoint i ategu ei neges am bwysigrwydd rhoi ein hymddiriedaeth a'n hyder yn Iesu Grist bob amser.

Wedi i'r plant fynd i'r festri, roedd gorchwyl arall yn disgwyl yr aelodau, sef ethol blaenoriaid newydd i'r eglwys. Daeth dau enw i'r brig, sef Mrs Mair Jenkins a Miss Delyth Davies. Llongyfarchwyd y ddwy yn wresog gan ein Gweinidog a'r aelodau, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i gydweithio â hwy yn dilyn eu cyfarfod ordeinio ar 21 Mehefin yng Nghapel Llangeitho.

Diolchwyd i Mr Eddie Jenkins, y Garn, a Mr John Leeding, Rehoboth, am eu gwaith ar ran yr Henaduriaeth.


Teimlwyd i ni gael bendith o fod yn bresennol y bore hwnnw. Cwestiwn Iesu i'w ddisgyblion oedd: 'Pam ydych yn ofni? Pam nad ydych yn gallu ymddiried ynof fi?' Credaf mai yr un fyddai ei gwestiwn i bob un ohonom ninnau heddiw. Gweddiwn am nerth ac arweiniad i bwyso arno a'i drystio Ef bob amser: 'Pwyso ar Iesu, dyna gryfder / sydd yn dal y pwysau i gyd.' 'Ceisiwn yr Arglwydd tra galler ei gael Ef, galwn arno tra fyddo yn agos.'

*Heulwen Lewis*



Plant ysgol Sul Pen-llwyn

*Newydd o'r wasg*




Astudiaethau'n seiledig ar hanesion pobl y trawsnewidiwyd eu bywydau wedi iddynt gyfarfod â Iesu. Pris £4.50




Cyfrol o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer pobl ifanc i gyflwyno prif lyfrau a themâu'r Beibl – mewn 25 cam. Pris £4.99




Ymunwch â ni am haf o ddathliadau! Dyma gyfle i gofio dau o arweinwyr mawr Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Howell Harris, a gafodd ei eni yn 1714, a Thomas Charles o'r Bala, a fu farw yn 1814. Mae gennym raglen o ddigwyddiadau o bob math, gyda rhywbeth at ddant pawb.



**Howell Harris (1714–73)** oedd un o arweinwyr mawr adfywiad Methodistaidd y 18ed ganrif. Ef oedd yn gyfrifol am sefydlu 'Teulu Trefeca', ac mae gan EBC goleg hyfforddi lleygwyr ar y safle hyd heddiw. Roedd yn bregethwr dewr ac ysgytwol a'i ddylanwad ysbrydol ar Gymry'r oes yn anfesuradwy.



Roedd **Thomas Charles (1755–1814)** yn addysgwr o fri: rhoddodd yr Ysgol Sul ar seiliau cadarn a gwnaeth ymdrech aruthrol i sicrhau cyflenwad o Feiblau rhad i'r werin bobl. Daeth yn un o brif arweinwyr y Methodistiaid yn ystod rhan olaf ei fywyd a chwaraeodd ran flaenllaw yn ordeiniad cyntaf 1811.

## Trichanmlwyddiant Howell Harris a lansiad arddangosfa newydd

**26 Gorffennaf**
**12pm–4pm, Coleg Trefeca**

Dyma gyfle i ymgynnull yng nghartref Howell Harris, un o fannau harddaf Cymru. Dewch erbyn 10:30–11:30 am baned cyn cael cyflwyniad i hanes Howell Harris gan y Parchedig J.E. Wynne Davies. Yna byddwn yn lansio arddangosfa newydd ar hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru cyn cael cinio bwffe (£5 – rhaid bwcio ymlaen llaw) ac addoliad bywiog am 2:30pm dan arweiniad Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parchedig Neil Kirkham. Bydd te p'nawn i gloi. Bydd gweithgareddau ar gyfer y plant hefyd, felly dewch â'r teulu cyfan!

## 'Trichanmlwyddiant Howell Harris: Digiwr o Ddiwygiwr?'

**11am, dydd Gwener 8 Awst**
**Pabell y Cymdeithasau 1, Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr**

Darlith gan yr Athro Derec Llwyd Morgan gyda'r Athro John Gwynfor Jones yn llywyddu.

## Wythnos Agored

**18–22 Awst**
**Coleg Trefeca**

Cyfle i unrhywun alw heibio Trefeca i weld y Coleg a chael eich tywys o gwmpas yr arddangosfa newydd. Os byddwch yn teithio ar hyd yr A470, cofiwch oedi yn y llecyn arbenig hwn wrth Aberhonddu i gael paned a gweld yr arddangosfa newydd.

## Taith Mari Jones

**Penwythnos 6–7 Medi**
**Llanfihangel y Pennant i'r Bala**

Cyfle i dreulio deuddydd yn dilyn yn ôl traed Mari Jones, a gerddodd 26 milltir er mwyn cael ei dwylo ar un o Feiblau Thomas Charles. Pris: £50 yn cynnwys swper a llety yng Ngholeg y Bala a phecyn bwyd ar gyfer y ddau ddiwrnod. Cysylltwch â Choleg Y Bala ar 01678 520565 i drefnu lle.

## Oedfa Ddathlu

**5pm nos Sul 7 Medi**
**Capel Tegid, Y Bala**

Ymunwch â'r Parchedig Hywel Edwards, aelodau Capel Tegid a cherddwyr blinedig i roi diolch i Dduw am fywyd a gwaith Thomas Charles o'r Bala mewn oedfa ddathlu arbennig.

## Adnoddau eraill

Os na allwch ddod i'r digwyddiadau uchod, cewch gyfle i ddysgu mwy am Howell Harris a Thomas Charles drwy gyfres o adnoddau. Mae dau wasanaeth teuluol ar Howell Harris a Thomas Charles ar gael, yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer ysgolion cynradd. Gallwch eu lawrlwytho o www.ebcpcw.org.uk neu ffoniwch y Swyddfa Ganolog ar 029 20627465 i archebu copi.

## *Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De*

Cynhaliwyd y Sasiwn eleni ar 20 Mai yng Nghapel y Crwys, Caerdydd. Daeth tyrfa dda ynghyd, yn cynnwys llond bws o eglwysi gofalaeth Llanddarog ac ardal Caerfyrddin ac eglwysi Nedd ac Afan. Llywyddwyd oedfa'r prynhawn gan Mrs Elsbeth Edwards, Caerdydd, ac oedfa'r hwyr gan Lywydd y Sasiwn, Mrs Margaret Jones, Aberafan. Y siaradwyr gwadd oedd Mrs Diane Batholomew, a fu'n sôn am 'Fanc Bwyd Caerdydd' a Mrs Gwenda Jenkins, Llanelli, a fu'n siarad am 'beibl.net'.

Yn ystod oedfa'r prynhawn cyflwynwyd casgliadau eglwysi'r Sasiwn i'r trysorydd – a'r arian yn mynd at waith y Genhadaeth Dramor a gwahanol brosiectau cenhadol eu natur o fewn Cymru.

Derbyniwyd croeso cynnes gan chwiorydd eglwysi'r Crwys a Salem, Treganna, a gwahoddwyd pawb i de a lluniaeth ysgafn rhwng yr oedfaon.

Bydd y Sasiwn yn cyfarfod y flwyddyn nesaf yn nhref Aberteifi ac yn y pwyllgor blynyddol bydd Miss Eleri Davies, Capel y Morfa, a minnau yn cymryd at yr Ysgrifenyddiaeth a'r Llywyddiaeth am y tair blynedd ddilynol.

*Ina Tudno Williams*

## *Gair y Dydd – 5 Gorffennaf*

1 Corinthiaid 13 *Hanfod ecwmeniaeth*

Mae pobl
Sy'n byw mewn gobaith
Yn gweld ymhellach.

Mae pobl
Sy'n byw mewn cariad
Yn gweld yn ddyfnach.

Mae pobl
Sy'n byw mewn ffydd
Yn gweld popeth mewn goleuni gwahanol.

(*Lothar Zenetti – Tad Pabyddol o'r Almaen*)

*Gweddi*: O Dduw, ym myd y pethau cyfnewidiol, dyro nerth a gras i ni lynu wrth y pethau sydd yn aros. Amen.

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Traddodwyd gweddi gan y Parchedig Wyn Morris i ddechrau'r cyfarfod yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 11 Mawrth. Estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, John Meredith, Blaenpennal, sy'n enedigol o Bontrhydfendigaid. Yn ystod y prynhawn rhannodd ei atgofion am ei blentyndod ym Mhontrhydfendigaid drwy gyfrwng sawl hanesyn doniol a diddorol, gan nodi sut mae'r hen gymdeithas wedi newid ers ei blentyndod. Beth amser yn ôl cyhoeddodd ei hunangofiant o'r enw *Yr Hyn Ydwyf*, ac mae'r gair 'ydwyf' yn berthnasol i un digwyddiad pwysig yn ei yrfa fel gohebydd. Cawsom sawl stori ddifyr am ei fywyd fel gohebydd ar staff BBC Cymru yn y Canolbarth gan egluro sut y digwyddodd iddo ynganu'r gair 'ydwyf' yn ystod canlyniad y Refferendwm i gael Cynulliad i Gymru ym mis Medi 1997. Diolchwyd iddo am brynhawn pleserus iawn gan Ann Jenkins. Paratowyd y te gan Non Griffiths ac Ann Humphreys.

Daeth tymor y Gymdeithas i ben am eleni ar brynhawn Mawrth, 8 Ebrill pan fwynhaodd yr aelodau de prynhawn yng Nghastell Glandyfi, a hithau'n ddiwrnod braf o wanwyn. Croesawyd pawb gan Eiriona Metcalfe, ac ar ôl y wledd hyfryd cawsom gyfle i fwynhau'r golygfeydd bendigedig o'r castell.

*Carys Briddon*



## Cynhadledd Cristnogaeth 21
## Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin. SA31 3EQ
## Gorffennaf 12fed 2014

### RHAGLEN Y DYDD

**Thema: Agweddau ar Gristnogaeth gyfoes**

10.30 Paned, cymdeithasu a thalu

10.45 **Addoliad, croeso a chyflwyno'r thema**
Vivian Jones (*Cadeirydd Cristnogaeth 21)*

11.00 **"Cristnogion Fel Dinasyddion Byd-Eang yn yr 21 ganrif"**
Cathrin Daniel, Cymorth Cristnogol

11.45 Grwpiau trafod.

12.30 Cinio.

1.15 **"Rhwng Dau Olau"** Tecwyn Ifan

2. 00 Grwpiau trafod

2.45 **"Agweddau Cyfoes at y Beibl"**
Catrin Haf Williams, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

3.30 Cwestiynau

3.45 Materion Cristnogaeth 21

4.15 **Crynhoi, Diolch, Y Fendith a Ffarwelio:** Vivian Jones

Cost: £20. I gofrestru, ffoniwch 07900 491257 neu ebostiwch:
gwefeistr@cristnogaeth21.org

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Owen Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin
Is-gadeirydd: Heulwen Lewis, Pen-llwyn
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH;
johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **7 Medi**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com